Rhentu Doeth Cymru

Rent Smart Wales

# Rhentu Doeth Cymru

## Canllawiau Brand

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Defnyddio Brand Rhentu Doeth Cymru | 3 |
| Canllawiau Brand | 4 |
| Fersiynau o’r Brand | 5 |
| Logo Swyddogol Rhentu Doeth Cymru | 6 |
| Parth Gwahardd a Pherthynas i Logos Eraill | 8 |
| Camddefnydd | 9 |
| Brandio Asiant Trwyddedig, Landlord Trwyddedig a Hyfforddiant | 10 |
| Logos Asiant Trwyddedig a Landlord Trwyddedig | 11 |
| Logos Darparwr/Cwrs Hyfforddiant Cymeradwy | 12 |

# Defnyddio Brand Rhentu Doeth Cymru

**Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu ar gyfer rheoleiddio tai rhent preifat drwy gyflwyno system gofrestru ar gyfer landlordiaid a system drwyddedu ar gyfer landlordiaid ac asiantau sy'n gosod ac yn rheoli cartrefi rhent preifat.**

**Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei gweithredu drwy Rentu Doeth Cymru.**

**Mae'r canllawiau brand hyn yn berthnasol i unrhyw sefydliad, cwmni, contractwr neu awdurdod sydd wedi'i gomisiynu i ddarparu gwasanaethau fel rhan o Rhentu Doeth Cymru neu sydd wedi cael caniatâd i ddefnyddio brand Rhentu Doeth Cymru er mwyn cefnogi gweithgareddau marchnata sy'n hyrwyddo Rhentu Doeth Cymru. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i landlordiaid ac asiantau gosod tai sydd wedi cyflawni hyfforddiant ac sydd wedi'u trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru.**

**'Mae brand Rhentu Doeth Cymru a hefyd yr enw 'Rhentu Doeth Cymru' wedi'u cofrestru fel nodau masnach yn Swyddfa Eiddo Deallusol y DU (rhif nod masnach cofrestredig 3102726 a 3159319) yn enw Gweinidogion Cymru.'**

Os ydych wedi'ch comisiynu neu'ch awdurdodi i gyflawni gwaith ar gyfer neu ar ran Rhentu Doeth Cymru, neu'n cynnig gwasanaeth yn y sector rhent preifat wedi cael eich trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru, gallwch hyrwyddo eich cysylltiad â Rhentu Doeth Cymru, er enghraifft, drwy ddefnyddio enw a/neu frand Rhentu Doeth Cymru ar neu yn eich cyhoeddiadau, eich taflenni gwybodaeth, eich posteri ac eitemau eraill; ar yr amod eich bod yn gwneud hynny yn unol â'r canllawiau hyn. Yn benodol, rhaid i'r contractwr/landlord/asiant ddefnyddio'r logos cymeradwy a roddwyd gan Rhentu Doeth Cymru.

**Cewch ddefnyddio brand Rhentu Doeth Cymru ar yr amodau canlynol:**

- Rydych yn arddangos brand Rhentu Doeth Cymru ochr yn ochr â'ch brand eich hun lle bo hynny'n bosibl, ac yn dilyn y canllawiau hyn ar gyfer maint a lleoli brand Rhentu Doeth Cymru. Nid oes rhaid i frand Rhentu Doeth Cymru fod yn fwy amlwg nag unrhyw frand arall.
- Os ydych yn ddarparwr gwasanaeth a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Dinas Caerdydd) i wneud gwaith ar gyfer, neu fel rhan o Rhentu Doeth Cymru, rhaid i chi gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i drafod unrhyw achos o leoli a defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru cyn y gellir ei roi ar unrhyw eitemau. Mae hyn er mwyn cynnal cyfanrwydd brand Rhentu Doeth Cymru.
- Os ydych wedi cael eich trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 gallwch ddefnyddio'r brand Rhentu Doeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r person trwyddedig a enwir yn unig ac yn benodol dim ond y logos 'Asiant Trwyddedig' / 'Landlord Trwyddedig'.
- Na fyddwch yn defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru a/neu'r enw 'Rhentu Doeth Cymru' mewn unrhyw ffordd a allai effeithio'n andwyol ar enw da Rhentu Doeth Cymru neu'r Awdurdod Trwyddedu neu a allai fod yn niweidiol i frand Rhentu Doeth Cymru.
- Efallai y byddwn yn tynnu ein caniatâd yn ôl ar gyfer eich defnydd o frand Rhentu Doeth Cymru a/neu'r term 'Rhentu Doeth Cymru' os na fyddwch yn cydymffurfio ag amodau eich trwydded, a/neu os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r canllawiau hyn neu unrhyw gyfarwyddiadau eraill a roddwn i chi mewn perthynas â'ch defnydd o frand Rhentu Doeth Cymru a/neu'r term 'Rhentu Doeth Cymru'. Efallai y byddwn yn gofyn i chi dynnu a / neu ddinistrio unrhyw ddeunyddiau nad ydynt yn cydymffurfio.

# Canllawiau Brand

**Mae'r canllawiau hyn yn diffinio'r modd y caiff brand Rhentu Doeth Cymru ei ddefnyddio, sut i'w ddefnyddio ar draws y cyfryngau a sut y gellir ei ddefnyddio gyda nodau brand eraill.**

**Os nad ydych yn siŵr am y wybodaeth yn y ddogfen hon, cysylltwch â ni i gael cyngor pellach:**

**https://rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/**

- Dylid defnyddio'r brand dim ond yn unol â'r canllawiau hyn
- Ni ddylai'r brand byth ymddangos yn llai nag unrhyw frand arall naill ai ar-lein neu mewn print
- Pan fo brand Rhentu Doeth Cymru yn ymddangos o fewn copi corff, fel pennawd neu gapsiwn, dylai ymddangos fel a ganlyn:

  Copi Corff neu bennawd
  **Rhentu Doeth Cymru**

  Capsiwn
  **RhDC** (priflythrennau)

# Fersiynau o'r Brand

**Crëwyd y brand gydag ystod gyfyngedig o opsiynau i ganiatáu ar gyfer cysondeb wrth ei ddefnyddio, tra'n galluogi hyblygrwydd lle gallai ailgynhyrchu clir fod yn gyfyngedig.**

Mae'r brand ar gael mewn tri fersiwn - lliw llawn, du a gwyn.

Peidiwch â newid y brand i ymgorffori lliwiau cwmni a / neu gorfforaethol.

**Lliw**

**Pantone 376**
**(Prif liw)**

C 54  R 132
M 0  G 189
Y 100  B 0
K 0

**Du**

70%

**Du**

**Gwyn**

# Logo Swyddogol Rhentu Doeth Cymru

Mae'r logos hyn ar gyfer ddefnydd mewnol neu ar gais arbennig os yn cydweithio.

Dylai pob elfen o'r brand aros yn ddarllenadwy. Am y rheswm hwn, dylid cadw at isafswm maint.

**Peidiwch â newid y brand.**

Rhaid atgynhyrchu'r brand yn gyson trwy gydol holl gyfathrebu.

**Cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru i gael copi cydraniad uchel:** [https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/](https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/)

## Maint - Defnydd Digidol

Ni ddylai brand Rhentu Doeth Cymru ymddangos yn llai na 200 px o led ar ddeunydd digidol.

**maint lleiaf 200 x 200 px**

# Maint - Defnydd Papur

Ni ddylai brand Rhentu Doeth Cymru ymddangos yn llai na 24mm o led ar ddeunydd wedi'i brintio.

**A3**

55mm

**A4**

40mm

**A5**

35mm

**DL**

30mm

***y maint lleiaf**


24mm

*Dyma'r maint a argymhellir ar gyfer eitemau hyrwyddo neu lle mae'r deunydd yn llai na 99mm o led.

# Parth Gwahardd a Pherthynas i Logos Eraill

Dylai fod ardal o ofod clir yr un fath â lled y llinell lorweddol sy'n ymestyn o'r llinell fertigol ar ochr dde'r brand. Mae hyn yn berthnasol ar ba bynnag faint y mae'r brand yn cael ei atgynhyrchu.

Dylid bob amser arddangos y marc brand mewn modd sydd yr un mor amlwg â brandiau eraill ond byth yn llai na'r maint gofynnol lleiaf.



# Camddefnydd

Peidiwch â throi'r graffig

Peidiwch ag aflunio’r brand

Peidiwch â newid y lliw

Peidiwch â’i wneud yn llai na’r maint gofynnol

# Brandio Asiant Trwyddedig, Landlord Trwyddedig a Hyfforddiant

## Maint - Defnydd Digidol

maint lleiaf 200 x 68 px

maint lleiaf 200 x 200 px

## Size - Paper Use

maint lleiaf 60mm o led (i raddfa)

maint lleiaf 35mm o led (i raddfa)

# Logos Asiant Trwyddedig a Landlord Trwyddedig

**maint lleiaf 35mm o led (dim i raddfa)**

**maint lleiaf 60mm o led (dim i raddfa)**

## Sticeri Ffenestri

Mae sticeri ffenestri ar gael i asiant trwyddedig eu harddangos yn ei safleoedd masnachol. I gael y budd mwyaf, arddangoswch nhw mewn safle amlwg nad yw'n llawn deunyddiau hyrwyddo eraill.

**I gael copïau, cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru yma:** [https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/](https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/)

# Logos Darparwr/Cwrs Hyfforddiant Cymeradwy

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales
Cwrs wedi'i gymeradwyo
Approved Course

Cwrs wedi'i gymeradwyo
**Maint lleiaf 35mm o led (dim i raddfa)**

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales
Cwrs wedi'i gymeradwyo i Landlordiaid
Approved Landlord Course

Cwrs wedi'i gymeradwyo i Landlordiaid

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales
Cwrs wedi'i gymeradwyo i Asiantwyr
Approved Agent Course

Cwrs wedi'i gymeradwyo i Asiantiaid

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales
Darparwr Hyfforddiant Awdurdodedig
Authorised Training Provider

Darparwr Hyfforddiant Awdurdodedig

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales
Hyfforddwr Awdurdodedig
Authorised Trainer

Hyfforddwr Awdurdodedig

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales
Cwrs wedi'i gymeradwyo
Approved Course

**35mm o led (i raddfa)**

Mae hwn yn gynllun amgen y gellir ei ddefnyddio. Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer troednodiadau gwefannau, llofnodion e-bost a phapur pennawd.

Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales — Cwrs wedi'i gymeradwyo Approved Course

Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales — Cwrs wedi'i gymeradwyo i Landlordiaid Approved Landlord Course

Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales — Cwrs wedi'i gymeradwyo i Asiantwyr Approved Agent Course

Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales — Darparwr Hyfforddiant Awdurdodedig Authorised Training Provider

Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales — Hyfforddwr Awdurdodedig Authorised Trainer

**Maint lleiaf 60mm o led (i raddfa)**

**Am mwy o wybodaeth a chyngor ynglŷn â defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru**

# Ewch i **www.rhentudoeth.llyw.cymru** neu ffoniwch **03000 133344**

#23471 ©Hawlfraint y Goron Llywodraeth Cymru 2023